

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
8 Ebrill 2024 yn Neuadd Jiwibili Llangeitho am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
8 April 2024 at Llangeitho Jiwibili Hall at 8.00 pm

Presennol/Present

Cyng/Cllr Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Sarah Evans, Gwilym Evans, Daniel Thomas, Dafydd Morse, Gerwyn Ebenezer, Myrddin James & Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Paul Rooke, Ieuan Gwynne & Cyng/Cllr Beryl Evans.

Croeso / Welcome

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a chydymdeimlwyd a Cyng Paul Rooke a'i deulu yn ei profedigaeth diweddar.

The Chairman welcomed the members to the meeting and expressed condolence to Cllr Paul Rook and family on their recent bereavement.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Yn absenoldeb yr heddlu, ni dderbynwyd adroddiad misol.

Due to police absence, no report was received

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Mawrth yn gywir ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.

The minutes for the March meeting were confirmed correct by Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Daniel Thomas.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Peiriant diffib wedi'u leoli ar wal yr 'Hungry Ram' Penuwch a threfnwyd sesiwn hyfforddi i'r gymuned ar 10fed o Ebrill 2024 am 7 yr hwyr.
The defib machine has been installed at the 'Hungry Ram' Penuwch, and a training session for the community took place at 7pm on the 10th of April
- Cais am grant tuag at cael Diffib, Rhydypany, oddi wrth BHF yn yr ail rownd ddim wedi bod yn llwyddiannus. Gofynnir i'r Cynghorwyr rhoi wybod i'r clerc os ydynt yn gwybod am grantiau eraill i geisio am beiriant.
A second round grant application to the BFH for a defib to be placed at Rhydypany has not been successful. The clerk asked the Councillors to inform her if they became aware of any other grant available.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans.
BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.
Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion being investigated by the County Council.
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.
The results of the speed lines placed in the community had not been received.
- Perchennog ffens y parc yn Llangeitho, dal heb gwblhau codi'r ffens.
The park fence in Llangeitho has not been repaired by the owner.
- Yn dilyn tystiolaeth allan o'r hen gofnodion, cytunwyd mae'r Cyngor Cymuned oedd perchnogion yr hen cysgodfan bws yn Tro Pair. Clerc i gysylltu ac Un Llais Cymru am gyngor yn dilyn arolwg diweddar.
After looking through old minutes, it was agreed that the Community Council were the owners of the old bus shelter at Tro Pair. Clerk to contact One Voice Wales for advice following recent survey.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.
The hedge at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been cut yet.
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho.
The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.
- Angen cyfieithiad Saesneg o'r llythyr sydd i'w gadw wrth law ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya.
English translation of letter required to be kept in reserve regarding 20mph speed signs.

- Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir am y conau traffig sydd wedi bod wrth ymyl eiddo Glanwern Penuwch, mae hyn yn codi pryder i'r gymuned gan ei bod yn rhagweld damwain yn digwydd wrth i gerbydau symud allan i ganol y ffordd i deithio o amgylch y conau.
Clerk to contact the County Council regarding the traffic cones located at Glanwern, Penuwch. They're placement is of concern to local residents as they foresee an accident happening as traffic has to move to the middle of the road to avoid the cones.
- Angen y sweeper ar hyd y ffordd sydd yn mynd lan i Benuwch.
Request for the sweeper to attend to roads leading out of Penuwch.
- Angen glanhau drains lan ffordd o Parcrhydderch heibio Bronaeron, Llangeitho.
Dains need to be cleared on the road from Parcrhydderch and beyond Bronaeron, Llangeitho
- Angen glanhau'r ffordd heibio Glanwern, Penuwch, o'r cerrig sydd wedi syrthio, pryderon efo'r cyhoedd am y gwaith yma ddim wedi'u wneud.
Fallen stones need to be cleared by Glanwern, Penuwch, local residents concerned that this work has not been carried out.
- Soniwyd bod cyflwr y ffordd lawr Lôn Ty Croes, Penuwch wedi mynd yn wael ac mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw cynnal y Lôn.
It was noted that the condition of the lane towards Ty Croes, Penuwch is in a bad condition and that it's the responsibility of the County Council to maintain the lane.
- Soniwyd bod yr angen am 20mya trwy Penuwch yn ddiangen a bod angen ymateb i lythyr Elin Jones i grybwyll hyn.
It was noted that the 20mph limit through Penuwch is unnecessary and that a response should be sent to Elin Jones to convey this.
- Nodwyd fod culvert wedi blocio ar y ffordd Alltgoch, Bwlch y Ddwyallt, Pantybeudy Hall, Llangeitho a bod grafel dros y ffordd.
It was noted that the culvert was blocked near Alltgoch/Bwlch y Ddwyallt/Pantybeudy Hall and that the road was covered in gravel.
- Cyflwr y ffordd lawr o bentref Llangeitho lawr am Bont Aeron, heol Talsarn, wedi mynd yn wael, ynghyd a'r ffordd oddi amgylch y Lôn fach o Parcrhyddech draw am Felinfawr.
The road from Llangeitho towards Talsarn is in a bad condition, as is the road from Parcrhydderch towards Capel Betws.
- Tyllau yn y ffordd lan am Bwlchffin – Tynant – Penpontregarreg.
Potholes on the road towards Bwlchffin / Tynant / Penpontregarreg

Llyn Fanod

Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Cyfreithiwr Mr Edward Harris.
No response received from Mr Edward Harris, Solicitor.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Mawrth '24 - £123.11 – *Clerk Salary March*
- Aelodaeth Un Llais Cymru £156 *One Voice Wales Membership*
- Ffurflenni lwfans i Gynghorwyr i'w cwblhau yn ôl ei dewis / *Allowance forms completed by Councillors.*

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Gwilym Evans Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Gwenfair Owen

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi/*Nothing to report.*

Ysgol Rhos Helyg School

Soniwyd bod yna 8 ysgol o dan fygythiad i gau ym mis Awst 2025, gan gynnwys Ysgol Rhos Helyg. Pwyllgor gwaith wedi'u ffurfio i gynnal cyfarfodydd ac i drafod y ffordd ymlaen i sicrhau bod Ysgol Rhos Helyg ddim yn un o'r wyth ysgol i gau. Cytunwyd i gefnogi'r Ysgol ym mhopeth a wnaed i sicrhau dyfodol yr Ysgol.
It was noted that 8 schools were under threat of closure in August 2024, including Ysgol Rhos Helyg. An Action Group has been set up to arrange meetings to discuss the way forward and campaign against the closure of Ysgol Rhos Helyg. It was agreed to support the School in any way we can.

Comisiwn Ffiniau / Bounday Commission

Derbyniwyd ymateb i'r adroddiad Comisiwn Ffiniau gan gynnig diddymu cymunedau presennol Llangeitho, Llangwryfon a Lledrod a defnyddio'r 3 ardal i'w cyfuno i ffurfio Cymuned newydd â wardiau, sef Llangeitho. Mae'r Comisiwn Ffiniau yn difynnu nad oes gan y 3 cymuned bresennol ddigon o etholwyr i'w cadw fel cymunedau ac nid oes gan y wardiau presennol ddigon o etholwyr i'w cadw fel wardiau, yn unol â'r Polisi Maint y Cyngor. Bydd y ffiniau cymunedol presennol yn ffurfio ffiniau'r wardiau cymunedol o fewn yr ardal Gymunedol newydd. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar:- www.cffdl.llyw.cymru Diolchwyd i Cyng Sarah Evans a Cyng Daniel Thomas am setio'r cyfan lan ar sgrin yn y Neuadd. Trafodwyd cynnal cyfarfodydd mewnol / ar y cyd / cyhoeddus i ymateb i'r cynnigion yma erbyn 13 Mai 2024. Cyng Rhodri Evans i drafod ymhellach efo Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi ar gyfer y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar y cyd i drafod yr adroddiad.

A response was received to the Boundaries Commission report proposing abolish the current Llangeitho, Llangwryfon and Lledrod communities and merge the three to create a new Community, Llangeitho. The Boundary Commission state that the three present communities don't have enough electors to keep the current wards, according to the County's Policy. The full report can be seen here – www.dbcc.gov.wales. Cllr Sarah Evans and Cllr Daniel Thomas were thanked for preparing the information on screen. Discussions took place on whether to arrange a closed/joint/public meeting to respond to the proposals by the 13th of May. Cllr Rhodri Evans to contact Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi to discuss the possibility of arranging a joint meeting to discuss the report.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Derbyniwyd ac arwyddwyd contract rhwng BT a'r Cyngor Cymuned i ymgymryd a pherchnogaeth ciosg Rhydypany, arwyddwyd gan y Cadeirydd.
A contract was received and signed between BT and the Community Council to undertake ownership of the phone kiosk at Rhydypany, signed by the Chairman.
- Trafodwyd y dyddiadau a dderbyniwyd gan Belltown Power i glywed am prosiect Waun Maenllwyd Energy Hub. Gan nad oedd yna unrhyw fewnbwn wedi'u dderbyn oddi wrth ardal Llangeitho, teimla'r Cyngorwyr ddylsai'r cwmni gynnal sesiwn galw heibio yn Neuadd Jiwibili yn Llangeitho, ac i drefnu'r cyfan efo ysgrifennyddes y Neuadd, gan ofynt iddynt hysbysebu a dalu am y sesiwn.
Possible dates for a meeting with Beltown Power was received regarding the Waun Maenllwyn Energy Project. It was felt that the company should hold a drop-in session at the Jubilee Hall, and for the company to arrange this directly with the Hall Caretaker, asking them to publicise the meeting and pay for the Hall.
- Culvert ar bwys Cilrhug wedi blocio, angen ei glanhau.
Culvert near Cilrhug needs to be cleared.
- Tyllau mawr oddi tan Aeron View, Llangeitho, angen ail-wynebu'r ffordd.
Deep potholes on the road below Aeron View, Llangeitho – road needs to be resurfaced.
- Cwynion wedi'u dderbyn bod sbwriel yn cael ei roi allan yn rhy gynnar tu allan i Brynglas, Llangeitho.
Complaints that refuse was being taken out early by the entrance to Brynglas, Llangeitho.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn Festri Capel Penuwch ar nos Lun 6ed o Fai 2024 am 8 o'r gloch.
The AGM will be held at Penuwch Vestry Chapel on Monday 6th May 2024 at 8.00 o'clock.